EDUCATION WORKFROCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION UNFED CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 12 MAWRTH 2021

LLEOLIAD: MICROSOFT TEAMS

AELODAU PRESENNOL:

Angela Jardine	Jane Setchfield
Anne Pittman	Kelly Edwards
Berni Tyler	Kevin Pascoe
Clare Jones	Paul Croke
David Williams	Rosemary Lait
Eithne Hughes	Steve Drowley
Gwawr Taylor	

YMDDIHEURIADAU:

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

SWYDDOGION:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Tyler Baker	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Cofnodion)

1. CROESO A SYLWADAU AGORIADOL

1.1. Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*), yr aelodau, y swyddogion a thri arsylwr CGA i'r cyfarfod. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan gydweithwyr yn TCI, GTCNI a GTCS.

1.2. Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod newid ar yr agenda am fod Dr Hazel Hagger *(Cadeirydd y Bwrdd Achredu AGA)* yn bresennol i roi diweddariad i aelodau ar eitem agenda 10 (CGA 02/21- Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon). Croesawodd y Cadeirydd Dr Hazel Hagger i roi diweddariad i aelodau cyn bwrw ymlaen â gweddill agenda'r cyfarfod.

*****NODWCH NEWID YN YR AGENDA AR Y PWYNT HWN *****

10. ACHREDU ADDYSG GYCHWYNNOL I ATHRAWON (AGA) CGA 02/21

10.1. Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y papur a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni AGA. Adroddodd fod yr holl raglenni a ddechreuodd yn 2020-21 wedi'u hachredu'n gychwynnol gydag amodau. Roedd pwyllgorau AGA wedi cynnal cyfarfod monitro amodau rhithwir gyda Phartneriaeth Prifysgol De Cymru a'r Brifysgol Agored.

10.2. Adroddwyd bod y Datganiadau o Fwriad i ddarparu rhaglenni cynradd TAR wedi'u derbyn gan Bartneriaeth Prifysgol De Cymru a Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe (SUSP).

10.3. Hysbyswyd y Cyngor fod swyddogion CGA yn parhau i weithio gydag Estyn, yn unol â'i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd. Roedd gweithgor wedi'i sefydlu i ddrafftio dulliau a methodoleg fonitro. Roedd y gweithgor wedi cynnal pedwar cyfarfod, ac roedd cyfarfod pellach wedi'i drefnu. Cytunodd y grŵp y byddai swyddogion CGA yn gweithio gydag Estyn i sefydlu sut byddai monitro ac arolygu yn cydfodoli.

10.4. Adroddodd Bethan Stacey fod y nifer genedlaethol ddymunol gyffredinol a dderbynnir wedi lleihau gan 117, o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Anogwyd partneriaethau i fynd dros eu dyraniadau derbyn dymunol, ond gyda goddefiant wedi'i osod ar gyfer cyrsiau cynradd ar ddim mwy nag 20% uwchlaw'r dyraniad.

10.5. Rhoddodd Dr Hazel Hagger *(Cadeirydd y Bwrdd Achredu AGA)* drosolwg o waith y Bwrdd Achredu AGA. Trafododd gyflawniadau ac ymrwymiad y partneriaethau o ystyried yr amgylchiadau'n ymwneud â COVID-19. Hysbyswyd yr aelodau am ddigwyddiad a fyddai'n cael ei gynnal ar 24 Mawrth 2021 a fyddai'n dod â phartneriaethau AGA a rhanddeiliaid ynghyd i ddarparu cyfeiriad strategol / deallusol, trafod cynnydd, rhannu syniadau a datblygu syniadau pellach mewn perthynas â'r system AGA a oedd newydd ei sefydlu a'i diwygio. O ran ymholiad gan aelod, gwnaeth Dr Hagger sylw ar yr ymagwedd gadarnhaol

mewn perthynas â chyflymu dull dysgu cyfunol (h.y. dysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu o bell).

10.6. Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r cynnydd.

10.7. Diolchodd y cadeirydd i Dr Hagger am ddiweddaru'r aelodau a mynychu cyfarfod y cyngor.

*****NODWCH, PARHAU Â'R AGENDA*****

1.3. Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r agenda yn parhau o eitem 1. Cafodd aelodau eu diweddaru fod y broses recriwtio'n mynd rhagddi gyda Llywodraeth Cymru yng ngolau ymddiswyddiad yr aelod o'r cyngor, Ian Roberts. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n penodi aelod newydd, fodd bynnag, sicrhawyd y byddai swyddogion yn trafod gofynion o ran amrywiaeth gyda swyddogion.

1.4. Cafodd aelodau eu hatgoffa i gwblhau'u dogfennau adolygiad blynyddol a'u dychwelyd i'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol. Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa aelodau o'r diwrnod hyfforddi blynyddol a oedd i ddod, i'w gynnal ar 15 Ebrill 2021.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

2.1. Datganodd Eithne Hughes fuddiant yn eitem 10 ar yr agenda. CGA 02/21 Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

2.2. Datganodd Kelly Edwards fuddiant yn eitem 14 ar yr agenda. CGA 06/21 Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu

2.3. Datganodd Stephen Drowley fuddiant yn eitem 15 ar yr agenda. CGA 07/21 Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, drwy ei fod yn gadeirydd ETS.

3. ADRODDIAD GOHEBIAETH Y CADEIRYDD

3.1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i aelodau ar gyfarfodydd/gohebiaeth ddiweddar. Adroddodd fod ymateb manwl y Cyngor i'r pwyllgor deisebau yn dilyn deiseb gan unigolyn wedi'i gydnabod. Cadarnhaodd fod y ddeiseb wedi'i chau ac ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

3.2. Cafodd aelodau ddiweddariad ar y cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams. Nododd y Cadeirydd fod materion a phryderon wedi'u codi, yn enwedig mewn perthynas â chofrestriad ysgolion annibynnol. Yn ogystal, trafododd y Cadeirydd ei chyfarfod gyda Tracey Burke (Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau

Cyhoeddus).

3.3. Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y diweddariad ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau.

4. COFNODION DRAFFT 20FED CYFARFOD CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG: 20 TACHWEDD 2020

4.1. Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor. Roedd yr Aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5. DERBYN HYSBYSIAD O UNRHYW FATERION Y DYMUNAI AELODAU EU CODI MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU 'ER GWYBODAETH' (19-23)

5.1. Ni chodwyd unrhyw faterion.

6. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR GWEITHREDOL A GYNHALIWYD 22 IONAWR 2021

6.1. Cyflwynwyd y cofnodion gan y Prif Weithredwr, a nododd nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'w hadrodd. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

7. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR COFRESTRU A RHEOLEIDDIO A GYNHALIWYD 22 IONAWR 2021

7.1. Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

8. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU 25 IONAWR 2021

8.1. Cyflwynodd Lisa Winstone *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)* y cofnodion. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

9. ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR CGA 01/21

9.1. Cyflwynwyd y papur gan Hayden Llewellyn *(Prif Weithredwr).* Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar ystod eang o faterion nad oedd papurau ar yr agenda wedi ymdrin â nhw. Adroddodd fod CGA wedi parhau i gyflawni'r mwyafrif o'i swyddogaethau statudol a gwaith a ariannwyd gan grant yn llwyddiannus yn ystod y pandemig. Adroddodd am oriau

estynedig y gwasanaeth ffôn, o ystyried llwyddiant ei gyflwyno ym mis Chwefror.

9.2. Gan gyfeirio at baragraffau 7 ac 8 y papur, roedd y Comisiynydd Plant wedi adolygu camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddau fater polisi, gan gynnwys cofrestru staff mewn ysgolion annibynnol. Nodwyd bod adroddiad yr adolygiad wedi'i gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

9.3. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at baragraffau 13 a 14, yn adrodd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gofal Cymdeithasol Cymru arwain ar waith penodol mewn perthynas ag addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Roedd CGA wedi pwysleisio i Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru bwysigrwydd p'un a oedd staff yn gysylltiedig ag "addysg" neu "ofal plant", wrth benderfynu gyda pha gorff fyddai'n fwyaf priodol i gofrestru (os o gwbl), a hefyd fod CGA eisoes yn cofrestru rhai staff yn y maes hwn. Hysbyswyd yr aelodau y byddai adolygiad yn cael ei gomisiynu.

9.4. Ystyriodd aelodau'r Cyngor y materion yr ymdriniwyd â nhw gan yr adroddiad.

11. CYNLLUNIAU STRATEGOL, GWEITHREDOL A CHYNLLUNIAU CYSYLLTIEDIG DRAFFT CGA 03/21

11.1. Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyfres o gynlluniau drafft i gael cymeradwyaeth yr aelodau, gan egluro, ers i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried y cynlluniau, bod y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i chymhwyso i'r cynlluniau. Gwahoddodd Lisa Winstone i amlinellu'r manylion cyllidebol i'r aelodau.

11.2. Eglurodd Lisa fod diffyg yn is na'r gyllideb ragolygol wreiddiol wedi'i phennu ar gyfer 2021-22. Roedd swyddogion yn rhagfynegi diffyg o £314,483 ar gyfer y flwyddyn, sef gostyngiad o £51,261.

11.3. Roedd y canlyniadau hyd yma wedi bod yn gryf iawn, gyda balans yn y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn ar 31 Mawrth 2020 o £3,410,000. Atgoffwyd yr Aelodau, yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, bod y Cyngor wedi cytuno y dylai £200,000 gael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i gronfa'r Gronfa Ddata. Yn ogystal, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, oherwydd y sefyllfa warged ragamcanol nas cynlluniwyd a ragfynegwyd ar gyfer 2020/21, roedd y Cyngor wedi cytuno y byddai £200,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i gronfa'r Gronfa Ddata, gan fynd â'r balans i £800,000 a balans y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i £3,010,000;

11.4. Adroddwyd bod Cynnig Grant 2021-22 yn cael ei ddrafftio ac y byddai'r gyllideb yn cael ei diwygio i gynnwys gweithgareddau a ariennir gan y Cyngor a LlC ar ôl ei derbyn. I ymateb i ymholiad gan aelod, ymatebodd Lisa Winstone bod gan CGA ymreolaeth dros ei gyllideb ariannol.

11.5. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach ac roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r cynlluniau a'r gyllideb ddrafft.

12. ADRODDIAD CYNNYDD SAC, COFRESTRU A SEFYDLU CGA 04/21

12.1. Adroddodd Elizabeth Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer)* fod CGA wedi dechrau ei broses flynyddol adnewyddu ffioedd. Roedd nifer fawr o ffioedd adnewyddu eisoes wedi'u talu. Byddai swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n datblygu a ph'un a fyddai'n briodol i oedi datgofrestru eleni eto oherwydd COVID-19.

12.2. Cafodd Aelodau eu diweddaru ar y materion a godwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag anghysonderau â'r ddeddfwriaeth gofrestru. Roedd swyddogion wedi cadarnhau mai'r Llywodraeth nesaf fyddai'n ystyried y materion yn dilyn etholiadau'r Senedd.

12.3. Sicrhaodd Elizabeth Brimble yr aelodau fod yr holl waith darparu a dadansoddi data ar ran Llywodraeth Cymru yn unol â'r targed. Yn ogystal, roedd cynnig prosiect ymchwil (wedi'i ariannu gan grant) wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn i ETS Cymru a CGA weithio mewn partneriaeth i gomisiynu ymgynghorydd i fapio staff o fewn y sector. Roedd swyddogion yn disgwyl am ymateb ysgrifenedig i'r cynnig gan swyddogion.

12.4. Atgoffwyd y Cyngor o gyfrifoldeb ehangach CGA i gydnabod cymwysterau proffesiynol. Nodwyd, ar ôl derbyn y pwerau i gydnabod, bod CGA wedi derbyn ei ffurflen gais gyntaf ar-lein gan athro ysgol hyfforddedig o dramor ar 4 Ionawr 2021, ac roedd cyfanswm o 10 o geisiadau wedi'u derbyn hyd yma.

12.5. Nododd yr aelodau y materion yn yr adroddiad ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau.

13. ADRODDIAD PRIODOLDEB I YMARFER CGA 05/21

13.1. Cyflwynwyd y papur gan Elizabeth Brimble ac amlygodd fod 62 o achosion cyfeirio wedi'u derbyn hyd yma eleni; sef gostyngiad o 35% mewn achosion cyfeirio o'r llynedd, a oedd yn ganlyniad uniongyrchol COVID-19. Roedd swyddogion yn adolygu 44 achos cyfeirio arall a oedd ar gyfnodau amrywiol o ran eu hasesu/ymholi. Gan ymateb i ymholiad gan aelod, sicrhaodd y Cyngor nad oedd unrhyw ôl-groniad na materion arwyddocaol yn effeithio ar wrandawiadau/pwyllgorau ymchwilio o bell. Nodwyd bod 5 o bwyllgorau priodoldeb wedi'u cynnal o bell. Yn ogystal, roedd 30 o geisiadau priodoldeb wedi'u tynnu'n ôl. Eglurodd fod hyfforddiant pwrpasol wedi'i ddarparu i Adnoddau Dynol, AB a chyflogwyr dysgu seiliedig ar waith ar y broses gyfeirio.

13.2. Roedd y Cyngor eisoes wedi cael diweddariad ar gynnydd ymgynghoriad Llywodraeth ar bwerau deddfwriaethol newydd i CGA allu pennu Gorchmynion Atal Dros Dro Interim.

Dywedwyd wrth aelodau y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei thrafod gan Aelodau'r Senedd ar 16 Mawrth 2021 a, phe bai'n cael ei chymeradwyo, byddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Amlinellodd Liz gynllun gweithredu ar gyfer y pwerau newydd, gan gynnwys ymgynghoriad ar y newidiadau y byddai angen eu gwneud i Weithdrefnau a Rheolau Disgyblu CGA.

13.3. Adroddwyd bod swyddogion yn gweithredu cynlluniau i fabwysiadu gwaith achos Priodoldeb i Ymarfer yn ddi-bapur erbyn 30 Ebrill 2021.

13.4. Darparwyd diweddariad ar y canllaw drafft newydd i arfer da 'proffesiynoldeb ar waith'. Gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i gymeradwyo'r canllaw drafft ar gyfer ei gyhoeddi.

13.5. Nodwyd y materion yn yr adroddiad gan yr aelodau a chymeradwywyd cyhoeddi'r canllaw newydd i arfer da.

14. AROLWG CENEDLAETHOL O'R GWEITHLU CGA 06/21

14.1. Atgoffwyd y Cyngor gan Elizabeth Brimble o'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, sef y byddai CGA yn cynnal arolwg cenedlaethol o'r gweithlu yn nhymor y gwanwyn. Hysbysodd yr aelodau fod wyth holiadur wedi'u dosbarthu a bod cynnydd yn mynd rhagddo'n iawn. Byddai'r gyfradd ymateb yn cael ei monitro trwy gydol cyfnod yr arolwg, a byddai hyblygrwydd i ymestyn y terfyn amser os oedd angen.

14.2. Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraffau 6 a 7 y papur, a hysbysodd fod cyd-undebau llafur AB, Colegau Cymru a swyddogion addysg ôl-16 a sgiliau Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â phrosiect ar y cyd i adolygu llwyth gwaith athrawon AB. Gofynnwyd i CGA ymuno â'r bartneriaeth a chynorthwyo â cham un y prosiect. Byddai swyddogion yn cynhyrchu adroddiad interim i lywio cam 2 y prosiect a fyddai'n cynnwys adolygiad o'r data gan grŵp llywio.

14.3. Y terfyn amser ar gyfer casglu data'r arolwg oedd 9 Ebrill 2021. Roedd tîm Cyfathrebu CGA yn gweithio i hyrwyddo'r arolwg ymhellach ac anogwyd yr aelodau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r arolwg o fewn eu rhwydweithiau proffesiynol.

14.4. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau ac roedd yr aelodau'n fodlon gyda lansio a hyrwyddo'r arolwg.

15. Y MARC ANSAWDD AR GYFER GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU CGA 07/21

15.1. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau am y bartneriaeth weithio gydag ETS mewn perthynas â'r Marc Ansawdd. Adroddodd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ganiatáu i CGA gario tanwariant o fewn y gyllideb drosodd i ail flwyddyn y contract yng ngolau

COVID.

15.2. Roedd y Cyngor wedi adolygu'r marc ansawdd gwaith ieuenctid (atodir i'r papur yn Atodiad A) fel sy'n ofynnol o dan y contract gyda Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael cymeradwyaeth Weinidogol ac roedd swyddogion yn gweithio nawr i roi'r argymhellion ar waith.

15.3. I ymateb i ymholiad gan Aelod, nododd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno system codi tâl; byddai angen i gamau o'r fath gael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru

15.4. Roedd aelodau'r Cyngor yn fodlon nodi cynnydd y gwaith a derbyniodd adroddiad yr adolygiad yn Atodiad A.

16. YMATEB DRAFFT CGA I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR 'CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION: FFRAMWAITH AR GYFER GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD' CGA 08/21

16.1. Cyfeiriodd Bethan Stacey aelodau at ymateb drafft CGA i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y drafft o'r Canllawiau gwella ysgolion: Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Eglurodd y byddai'r ymateb yn cael ei wneud trwy lythyr yn hytrach na'r pro-forma safonol, a chadarnhaodd y byddai'r ymateb o fewn cylch gwaith CGA, a byddai pwyntiau'n cael eu datgan yn eglur; roedd llythyr drafft wedi'i atodi i'r papur yn Atodiad A.

16.2. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chymeradwyodd y Cyngor yr ymateb drafft.

17. HYRWYDDO GYRFAOEDD YM MAES ADDYSG CGA 09/21

17.1. Cyflwynwyd y papur gan Bethan Stacey a rhoddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl y Cyngor yn hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg. Eglurodd bod COVID-19 wedi effeithio ar y cynnwys i boblogi gwefan Addysgwyr Cymru, ac roedd hynny wedi arwain at oedi o ran lansio'r wefan.

17.2. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 6, roedd y tîm hyrwyddo gyrfaoedd wedi cychwyn ar gyfnod cynaledig o ymgysylltu a chyfathrebu, a hyd yma, roedd wedi cynnal 67 o arddangosiadau o'r safle i randdeiliaid ar draws y sector. Eglurodd fod 61 o broffiliau eisoes wedi'u creu ar gyfer y safle, ac y byddai ymgyrch lansio'n cael ei datblygu pan fyddai dyddiad lansio wedi'i gadarnhau.

17.3. Hysbyswyd yr aelodau bod gweithgarwch yn ymwneud â grant Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar gyfer 2019-20 a 2020-21 a fyddai'n debygol o gronni ar gyfer cwblhau'r gweithgarwch hwn yn 2021-22 (rhoddir y manylion ym mharagraff 22 y papur cyflwyno).

Adroddwyd bod Lisa Winstone yn gohebu gydag Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater er mwyn sicrhau ymdriniaeth gyfrifyddu briodol.

17.4. Nododd y Cyngor y cynnydd a lefel y grant a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau.

18. ADRODDIAD AR SAFONAU PROFFESIYNOL A PHROSIECTAU ERAILL TYMOR BYR LlC
CGA 10/21

18.1. Cyflwynwyd y papur gan Bethan Stacey a rhoddodd ddiweddariad i aelodau ar bump o brosiectau yr ymgymerwyd â nhw ar ran Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Bethan ddiweddariad i'r aelodau ar bob prosiect yn ei dro, a gwahoddodd gwestiynau.

18.2. Gan ymateb i ymholiad gan aelod, adroddwyd bod swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid (e.e. Race Council Cymru a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth) ac yn trefnu/hwyluso grwpiau ffocws yn ymwneud â gwaith ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

18.3. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach ac roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r cynnydd hyd yma a lefel grant Llywodraeth Cymru.

19-23 EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyniodd yr aelodau bapurau 'er gwybodaeth' ar y canlynol:

- **ADOLYGIAD CHWARTEROL (1 HYDREF – 31 RHAGFYR) (CGA 11/21)**
- **CYLLIDO ADRODDIAD CYNNYDD SEFYDLU (CGA 12/21)**
- **YSGRIFENYDDIAETH I'R IWPRB AC ADOLYGIAD O'R FFORWM CYFLOG AC AMODAU ATHRAWON (CGA 13/21)**
- **PASBORT DYSGU PROFFESIYNOL (CGA 14/21)**
- **YMATEBION CGA I YMGYNGORIADAU ALLANOL (CGA 15/21)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat a chaewyd y cyfarfod cyhoeddus yn ffurfiol**.**